# Y Pwyllgor Cyllid

| | |
|---|---|
| Meeting Venue: | **Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd** |
| Meeting date: | **Dydd Mercher, 30 Ionawr 2013** |
| Meeting time: | **08:50 - 11:40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_30_01_2013&t=0&l=en

## Concise Minutes:

Assembly Members:

**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
**Peter Black**
**Christine Chapman**
**Paul Davies**
**Mike Hedges**
**Ann Jones**
**Julie Morgan**
**Ieuan Wyn Jones**

Witnesses:

**Sioned Evans, Llywodraeth Cymru**
**Helen Paterson, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam**
**Rhodri Glyn Thomas**
**Gregg Jones, Pennaeth Swyddfa'r UE**

Committee Staff:

**Gareth Price (Clerc)**
**Daniel Collier (Dirprwy Glerc)**
**Martin Jennings (Ymchwilydd)**
**Eleanor Roy (Ymchwilydd)**

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

### 2. Creu gwell synergedd rhwng cyllideb yr UE a chyllidebau cenedlaethol ac is-genedlaethol - papur safbwynt - Pwyllgor y Rhanbarthau, yr UE

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Rhodri Glyn Thomas AC, Pwyllgor y Rhanbarthau, yr UE; a Gregg Jones, Pennaeth Swyddfa'r UE, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2.2 Holodd yr Aelodau y tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Rhodri Glyn Thomas i ddarparu:

- Y wybodaeth ddiweddaraf am waith Pwyllgor y Rhanbarthau o ystyried ei adroddiad ar greu gwell synergedd rhwng cyllideb yr UE a chyllidebau cenedlaethol ac is-genedlaethol.

### 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

## 4. Goblygiadau ariannol sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru

4.1 Trafododd y Pwyllgor oblygiadau ariannol sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru a chytunodd i'w hystyried ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 5. Rheoli Asedau - Tystiolaeth gan Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus

5.1 Croesawodd y Cadeirydd Dr Helen Paterson, Cadeirydd Rheoli Asedau, Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus a Phrif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam; a Sioned Evans, Cymorth i'r Rhaglen Waith ynghylch Caffael a Rheoli Asedau, Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus, a Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Eiddo, Llywodraeth Cymru.

5.2 Holodd y Pwyllgor y tystion.

**Camau i'w cymryd:**

Cytunodd Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus i ddarparu:

- Rhagor o wybodaeth ynglŷn â nifer yr adeiladau cyhoeddus y gellid eu defnyddio fel llety;
- Sesiwn i ddangos i'r Aelodau sut mae e-PIMS, sef cronfa ddata eiddo y sector cyhoeddus, yn gweithio;
- Rhagor o wybodaeth ynghylch y naw prosiect peilot sy'n ymwneud â rheoli asedau a sut y cawsant eu dewis;
- Nodyn ynglŷn â sut mae Grŵp Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus yn mynd i'r afael â'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei adroddiad 'Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus' i nodi a hyrwyddo enghreifftiau o arfer da gan y gwasanaethau brys i ddarparu gwasanaethau o fewn y gyllideb, i wneud defnydd da o gydweithio a darparu newid trawsffurfiol.
- Copi electronig o ddogfen Llywodraeth Cymru ynghylch Cyflwr yr Ystad.
- Rhagor o wybodaeth sy'n rhagamcanu nifer yr adeiladau sy'n rhan o ystad weinyddol Llywodraeth Cymru.

## 6. Papurau i'w nodi

6.1 Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2013.

## 7. Ystyried y dystiolaeth ar Reoli Asedau

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd ar gyfer ei ymchwiliad i’r broses o Reoli Asedau.

**TRAWSGRIFIAD**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.